Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: Chile

Chile, Apicoop, Mifruta, Mêl, Llus, Rhesins



Daearyddiaeth: Mae Chile'n ymestyn dros 4,300 cilometr (2,700 milltir) ar hyd arfordir de-orllewin De America, pellter tebyg o Gaeredin i Faghdad. Ond nid yw ei lled yn fwy na 240 cilometr (150 milltir) yn unman, gan wneud y wlad ddeunaw gwaith yn hirach na'i man lletaf. Mae mynyddoedd yr Andes yn wal ar ochr dwyreiniol y wlad ac mae'n wynebu'r Môr Tawel tua'r gorllewin. Mae Bolivia a'r Ariannin ar ffiniau Chile yn y Dwyrain ac mae'n cyffwrdd Periw yn ei man mwyaf gogleddol. Ei phrif ddinas a'r ddinas fwyaf yw Santiago.

Ystyr y Faner

Mae baner Chile'n cynnwys dau fand llorweddol gwyn (uwch) a choch (oddi tano) sy'n cynrychioli eira'r Andes a gwaed yr Indiaid a gollwyd yn eu brwydr arwrol yn erbyn goresgynwyr Sbaen. Mae sgwâr glas yng nghornel uchaf chwith y band gwyn ar y faner hefyd, gyda seren wen bum pig yn y canol. Mae'r glas yn cynrychioli awyr las glir Chile a daeth y seren wen o arfbais yr Indiaid te Araucaniaid, trigolion cynnar yr ardal

Wyddech chi?

Mae mwy na hanner cant o gopaon folcanig byw ym mynyddoedd yr Andes

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: Chile

Chile, Apicoop, Mifruta, Mêl, Llus, Rhesins

Mae dros bumed ran o gopr y byd yn cael ei gynhyrchu yn Chile

Wyddech chi?



Crefydd:
Catholig Rhufeinig 89%,
Protestannaidd 11%,
poblogaeth fechan Iddewig

Gwers Sbaeneg cyflym:
Helo - "Hola!" (oh-la)
Hwyl fawr - "Adiós!" (ah-dee-os)

Iaith
Sbaeneg (iaith swyddogol), Huilliche, Mapudungun, Quechua a Rapa Nui

- Poblogaeth: **16.45 miliwn**
- Dwysedd Poblogaeth: **21 o bobl y cilometr sgwâr**
- Llythrennedd: **98.6%**
- Plant wedi'u cofrestru mewn Addysg Gynradd: **94.4%**
- Plant wedi'u cofrestru mewn Addysg Uwchradd: **85.3%**
- Achosion HIV / AIDS yn y boblogaeth (15 – 49 mlwydd oed): **0.3%**

Climate Chile's length explains the great variety of climates and regions that can be found across the country. The northern region, which includes the great Atacama Desert, is extremely dry and the central region is a fertile area with a mild climate. The southern region is by contrast cold and rainy, having icy fjords and glaciers at the southernmost tip.

Wyddech chi?

Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth Chile'n byw yn y brif ddinas, Santiago.

Ystadegau o www.worldbank.org

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: Chile

Chile, Apicoop, Mifruta, Mêl, Llus, Rhesins

History

12,000 CC	1460	1541	1553	1810	1814
Americanwyr brodorol (mwy na dwsin o wahanol gymdeithasau) yn byw yn yr ardal	Brwydr gyda'r Incas	Pedro de Valdivia yn dechrau'r Concwest Sbaeneg ac yn sefydlu Santiago.	Araucaniaid yn dal ac yn lladd Valdivia	Llywodraeth Junta'n datgan ymreolaeth Chile yn Santiago	Sbaen yn adennill rheolaeth o Chile

1817	1818	1879-84	1973	1990
Y Sbaenwyr yn cael eu trechu ym Mrwydrau Chacabuco a Maipu gan Fyddin yr Andes.	Chile'n dod yn annibynnol	Chile'n trechu Periw a Bolivia yn Rhyfel y Môr Tawel	Y Cadfridog Pinochet yn rheoli'r wlad yn dilyn coup militaraidd	Pinochet yn ail sefydlu system ddemocrataidd o lywodraethu yn Chile.

Geirfa: Junta – llywodraeth yn cael ei arwain gan filwyr

Canolbwynt ar y Wlad: Paillaco a Chwm Aconcagua

Mae Paillaco

Apicoop, cwmni cydweithredol cadw gwenyn, wedi'i leoli ger Paillaco, dinas yn ne Chile yn nhalaith Valdivia. Amaethyddiaeth yw'r prif ddiwydiant yma ond mae mwy o bobl wedi mudo i ardaloedd trefol yn ystod y degawd diwethaf wrth i ffermwyr fethu ag ennill incwm teilwng.

Cwm Aconcagua

Mae Aconcagua 80 cilometr o Santiago ac wedi'i enwi ar ôl y copa uchaf yn yr Andes, Mynydd Aconcagua. Mae ffermydd MiFruta o dan y mynydd hwn. Mae'n ardal ffrwythlon, yn mwynhau hafau cynnes a gaeafau oer.